

DEFNYDDIO BWRDD SNELGROVE MEWN AMRYFAL FFYRDD
RHAN 1 – CYFLWYNIAD I L. E. SNELGROVE A’I FWRDD
(gan M.W. Shaw, Cymdeithas Gwenynwyr Môn)

Y Dyn ei Hun

Roedd Leonard E. Snelgrove yn wenynwr amlwg yn y 1930au ac yn weithgar hyd at rywbyrd yng nghanol y 1950au. Bu’n byw yn Weston-super-Mare, Gwlad yr Haf ac roedd yn gymrodor y Gymdeithas Entymoleg Frenhinol. Ymysg yr holl bethau a gyflawnodd, bu’n Llywydd Cymdeithas Gwenynwyr Gwlad yr Haf, yn Aelod Anrhydeddus am Oes, ac yn Ddarlithydd Arbenigol ac Anrhydeddus ac yn Gyn-Lywydd Cymdeithas Gwenynwyr Prydain. Ond yn bwysicach na hyn hyd yn oed, roedd yn arsylwi’n ofalus ac yn ddeallus ar wenyn. Cafodd **Swarming – Its Control and Prevention**, a gyflwynodd fwrdd Snelgrove, ei gyhoeddi gyntaf ym 1934 ac mae wedi cael ei ailargraffu gan BBNO (15fed Argraffiad 1998). Hefyd ysgrifennodd Snelgrove lyfrau pwysig am Fagu Breninesau a Chyflwyno Breninesau.

Cyflwyniad

Mae’n syndod faint o wenynwyr sydd â bwrdd Snelgrove ymysg eu casgliad o offer cadw gwenyn. Fel arfer mae’n aros yn y sied heb ei ddefnyddio oherwydd na wyddan nhw beth i’w wneud ag ef ac, os yw’n dod i olau dydd bob hyn a hyn, fel clawr mewn argyfwng mae hynny fel arfer. Bai’r gwenynwr yw hyn yn rhannol, heb ffwdanu dod i wybod sut mae ei ddefnyddio, ond dydy llyfr Snelgrove ddim yn hawdd ei ddefnyddio chwaith. Mae’r disgrifiad o’i ddulliau’n dueddol o fod braidd yn gaethiwus ac, mae’n debyg, yn anhyblyg - hynny yw, tan ichi ddarllen ymlaen at y drafodaeth. Roedd yn amlwg yn teimlo bod angen cyfarwyddiadau manwl ar y rhan fwyaf o wenynwyr. Problem arall yw bod Snelgrove yn amlwg yn cadw gwenyn digon toreithiog oherwydd mae’r rhan fwyaf o’r cyfarwyddiadau i’w ddulliau’n cynnwys cychod ar siambrau magu dwbl neu hyd yn oed driphlyg (h.y. 2-3 blwch dwfn o dan y wahanlen (*queen excluder*)). O ddilyn cyfarwyddiadau Snelgrove yn unig, mae hi’n anodd gweld sut gellir defnyddio ei ddulliau gyda chwch ar fag a hanner (un blwch dwfn ac un blwch bas). Hefyd mae’r llyfr yn rhoi’r argraff bod rhaid ichi symud pethau o gwmpas yn union fel y mae’n ei ddisgrifio ar yr union ddyddiad a roddir neu bydd y canlyniad ddim fel dylai fod. Mae’r cyfan yn swnio’n anodd ac yn ffwdanus iawn ac mae hyn yn gwneud i bobl droi eu cefn. Yn ddiweddarach yn y llyfr, mae’n ymlacio rywfaint ac yn sôn am bob math o amrywiadau i ateb sefyllfaoedd gwahanol, ond mae’r rhan fwyaf o’r darllenwyr wedi hen adael cyn cyrraedd y man hwn. Y peth arall sy’n gwneud i wenynwyr droi eu cefn yw bod rhaid ichi ddod o hyd i’r frenhines ar gyfer y rhan fwyaf o’i ddulliau (a’r rhan fwyaf o’r dulliau eraill o atal gwenyn rhag heidio/codi). Wel, mewn gwirionedd, does dim rhaid ichi ddod o hyd i’r frenhines! Sylweddolodd Snelgrove fod hyn yn anhawster ac mae’n rhoi cyfarwyddiadau eraill am sut i wneud y gwaith heb ddod o hyd i’r frenhines - ond, eto, dyw’r rhan fwyaf o bobl ddim yn darllen mor bell â hyn.

Datblygodd Snelgrove ei fwrdd yn bennaf i atal gwenyn rhag heidio/codi drwy eu rhannu cyn iddyn nhw wneud hynny. Eto, does dim byd newydd yn y syniad hwn. Mae gwenynwyr wedi’i ddefnyddio ar amryfal ffurfiau ers yn fuan ar ôl i’r cwch fframiau symudol ddechrau dod yn boblogaidd yng nghanol y 19eg ganrif. Nod y dull hwn o atal heidio yw barnu pan fydd y gytref wedi datblygu’n llawn ac ar fin heidio (ond heb ddechrau gwneud celloedd breninesau) ac yna ei rhannu. Hefyd mae rhannu wedi cael ei ddefnyddio’n helaeth i gynyddu gwenyn ac, yn yr achos hwn, bonws ychwanegol yw’r atal heidio. Hefyd mae wedi cael ei ddefnyddio’n strategol i baratoi cytrefi at lif neithdar penodol, e.e. grug; gan ddod â’r rhaniadau’n ôl at ei gilydd i wneud cytref gref gyda bocs magu llawn a digon o gwenyn fforio (*foraging*).

Seiliodd Snelgrove ei ddull ar ddamcaniaeth heidio Gerstung, sy’n honni bod heidio’n ganlyniad i’r ffaith fod gan gytref ormod o weinyddesau (*nurse bees*) sy’n cynhyrchu bwyd magu o’i gymharu â

nifer y larfae y mae angen eu bwydo. Gwyddai Snelgrove fod rhai'n gwrthwynebu'r ddamcaniaeth hon a chadwodd feddwl agored, er ei fod yn dal i gredu ei bod hi'n ffordd ddefnyddiol o feddwl am heidio. Mae rhannu cyn heidio yn symud llawer o weinyddesau o bresenoldeb y frenhines a'r mag. Profodd gwaith gan Butler a Simpson yn Rothamstead yn y 1950au fod damcaniaeth Gerstung yn anghywir yn y diwedd ond, beth bynnag am y ddamcaniaeth, mae dulliau Snelgrove yn dal i weithio.

Mae'r Dull Demaree (1892) sy'n llawer hynach yn mynd hanner ffordd tuag at rannu cytref yn llawn. Rhoddir y crwybrau magu yn rhan uchaf y cwch (ar ben y llofft fêl uchaf) ond nid ar lawr ar wahân, h.y. maen nhw'n dal yn rhan o weddill y cwch. Mae'r dull hwn yn cael gwared ar y gweinyddesau o brif ardal y magu a hefyd yn rhyddhau lle. Mae'n rhoi llai o reolaeth na bwrdd Snelgrove (neu lorïau rhannu eraill) ac mae'n rhaid gwneud yn siŵr yn gyntaf nad oes celloedd brenhines wedi dechrau ar ben y cwch lle gall y gwenyn deimlo'n ddigon unig i feddwl eu bod nhw heb frenhines. Po fwyaf o loffydd mêl sydd rhwng prif ardal y magu a'r mag ar ben y cwch adeg y symud, mwyaf tebygol yw hi y bydd celloedd brenhines yn cael eu cynhyrchu. Y cyfan sydd angen ei wneud yw dinistrio'r celloedd brenhines hyn (unwaith) a fydd dim mag ifanc y gall y gwenyn wneud rhagor o gelloedd ohono. Hefyd mae problem gyda Dull Demaree, sef bod mag gwenyn diog (*drones*) yn deor uwchben y wahanlen, dyw'r trueiniaid ddim yn gallu mynd allan ac maen nhw'n marw ar y wahanlen.

Bwrdd Snelgrove

Doedd cynllun bwrdd Snelgrove ddim yn hollol wreiddiol. Roedd 'byrddau heidio' neu 'fyRDDau rhannu' fel y'u gelwir yn aml, wedi bod o gwmpas ers cyn 1900. Ymddangosodd cynllun bwrdd tebyg iawn (gan JE Chambers) yn *Bee Culture*, cyfnodolyn yn America, yn 1906, ac mae nifer o fyRDDau mwy diweddar, fel byRDDau Wilson, Cloake a Horsley. Gan nad wyf wedi defnyddio unrhyw un o'r byRDDau eraill hyn, dydw i ddim yn siŵr beth maen nhw'n ei gynnig ond rwy'n amau a ydyn nhw mor hyblyg eu defnydd â chynllun Snelgrove. Yn y bôn, llawr rhyngol (*intermediate floor*) yw bwrdd Snelgrove ond yn lle un fynedfa, mae iddo wyth! Mae hyn yn ymddangos braidd yn ormod tan ichi ddeall beth yw eu defnydd. Mae'r bwrdd wedi'i lunio fel clawr gyda llwybr gwenyn ar y ddwy ochr. I'r drysau weithio'n dda a rhoi mynediad da mae'n well cynyddu'r llwybr gwenyn bob ochr i'r bwrdd o'r 6-7mm arferol i 9mm. Mae gan y rhan fwyaf o'm byRDDau i lwybr gwenyn 9mm ar y gwaelod a 12mm ar y top. Mae'r lle ychwanegol ar y top yn helpu i awyru rhan uchaf y gytref. Mae pâr o ddrysau yng nghanol y tair (neu bedair) ochr; mae'r drysau uchaf yn cysylltu ag ochr uchaf y bwrdd a'r drysau â'r ochr waelod. Yng nghanol y bwrdd mae twll, sy'n cael ei orchuddio â rhwyllau wrth ei ddefnyddio fel arfer. Mae Ffigur 1 yn dangos cynllun cyffredinol y bwrdd (cyhoeddir cynlluniau manwl ar gyfer adeiladu bwrdd Snelgrove yn nes ymlaen).

Y parau o ddrysau sy'n rhoi'r dull o reoli nifer y gwenyn sydd yn y gytref ar ben y bwrdd rhannu. Pan fydd rhaniad (o unrhyw fath) yn cael ei roi ar y bwrdd yn gyntaf, agorir un drws uchaf (yr un ar yr ochr neu'r cefn fel arfer) fel bod y gwenyn yn gallu hedfan. Bydd gwenyn a fydd wedi hedfan yn gadael o'r drws hwn ond yn dychwelyd i'r fynedfa ym mlaen y prif gwch y maen nhw wedi dysgu hedfan ohono. Dros yr ychydig ddyddiau nesaf (bydd y tywydd yn pennu pa mor gyflym) bydd y gytref ar ben y bwrdd Snelgrove yn colli pob un o'i gwenyn sy'n hedfan (gyda phrofiad blaenorol). Yn ystod y cyfnod hwn, bydd gwenyn nad oedden nhw'n hedfan yn cael 'dyrchafiad' i ddyletswyddau hedfan a byddan nhw'n ystyried y drws agored ar y bwrdd Snelgrove fel y fynedfa i'w cartref. Yn y cyfamser bydd mag yn deor o'r crwybr yn y gytref uchaf ac, ar ôl colli gwenyn sy'n hedfan i ddechrau, bydd nifer y gwenyn yn cynyddu. Ar ôl tua phum niwrnod bydd nifer da o wenynd eto'n hedfan o fynedfa'r bwrdd a gall y gwenynwr benderfynu a ddylai gadw'r gwenyn hyn gyda'r gytref uchaf neu eu trosglwyddo i'r gytref isaf. Fel arfer, y gytref uchaf yw'r rhan o'r cwch sy'n gwneud y mêl, felly'r nod yw trosglwyddo cymaint ag sy'n bosib o wenynd sy'n hedfan yno (er mwyn rhoi hwb i nifer y gwenyn fforio) heb beryglu'r gytref ar y top. Mae'n rhaid i'r gytref ar y top allu ei bwydo ei hun, ei hamddiffyn ei hun, ac os yw'n gwneud celloedd brenhines – fel mae fel arfer wrth ddefnyddio bwrdd Snelgrove – mae angen iddi fod â digon o wenynd a bwyd (paill a neithdar) i wneud

jobyn da o'r dasg bwysig hon. Rydych chi'n gallu trosglwyddo gwenyn i ran isaf y cwch drwy gau'r drws y mae'r gwenyn yn hedfan ohono ar hyn o bryd ac agor y drws sy'n union oddi tano. Nawr, agorir drws arall gwahanol ar ran uchaf y bwrdd, a bydd y gwenyn o'r gytref uchaf yn hedfan o hwnnw (gall fod 90° neu 180° i'r fynedfa wreiddiol – does dim gwahaniaeth, wir). Nawr bydd y gwenyn sy'n hedfan yn gadael y gytref uchaf drwy'r drws newydd ond yn dychwelyd i safle'r fynedfa flaenorol ac (fel arfer ar ôl oedi ychydig), byddan nhw'n mynd i lawr ac yn ymuno â'r gytref waelod. Eto bydd y gytref uchaf yn 'dyrchafu' gwenyn i ddyletswyddau hedfan i wneud iawn am y golled ond, wrth gwrs, bydd hyn ar draul y gwenyn cartref.

Gellir ailadrodd y broses hon o newid drysau ymhen tua 5 niwrnod, a bydd mwy o wenyn yn cael eu trosglwyddo i'r gytref isaf, ond yn anaml yn unig y mae angen neu y mae'n ddymunol gwneud hyn. Yn hytrach na dilyn unrhyw reol gaeth am drosglwyddo gwenyn sy'n hedfan i'r gytref waelod, mae'n well penderfynu ar sail yr hyn welwch chi. Codwch y clawr ar y gytref uchaf ac, os oes angen, edrychwch ar rai fframiau. Faint o wenyn sydd yn y gytref uchaf? Faint o fag sydd yno o hyd i'w fwydo ac i ddeor ac a oes digon o wenyn i ofalu amdano? Ydy'r celloedd brenhines yn y gytref uchaf wedi'u selio, h.y. ydy'r gwaith o fwydo'r breninesau newydd posib hyn ar ben? Ffactor arall a allai effeithio ar eich penderfyniad yw'r adeg o'r tymor mewn perthynas â llif neithdar posib. Ydych chi wedi rhannu'r gytref yn bennaf er mwyn atal heidio? Ydych chi'n ceisio gwneud brenhines newydd i'r gytref neu ydych chi'n ceisio gwneud llawer o freninesau drwy ddsbarthu celloedd brenhines i gnewyll (*nucs*)? Dyw'r penderfyniad dros newid drysau ddim yn allweddol a'r peth gwaethaf a fydd yn digwydd o beidio â'i wneud yw y gallai fod gennych gymaint o wenyn ar ben y bwrdd fel bod rhaid ichi ychwanegu blwch ychwanegol o grwybr i roi lle iddyn nhw. Mae'n well bod yn ochelgar oherwydd mae'n well cael gormod o wenyn yn y gytref uchaf na dim digon a bod y mêl yn cael ei ddwyn. Yr unig reol yw bod rhaid rhoi'r gorau i newid drysau pan fydd hi'n debygol fod brenhines wryfol yn y gytref uchaf eisiau hedfan a chael ei chyplu. Byddai ei chael hi'n dod yn ôl, yn drysu rhwng y mynedfeydd ac yn mynd i lawr i'r gytref waelod yn difetha popeth. Hyd yn oed ar ôl i frenhines newydd ddechrau dodwy yn y gytref uchaf, mae'n annoeth newid drysau am ryw 5 wythnos. Mae hyn oherwydd, erbyn i'r frenhines newydd ddechrau dodwy, bydd yr holl wenyn, bron, yn y gytref uchaf wedi cael profiad hedfan a byddai newid drysau'n trosglwyddo'r rhan fwyaf i lawr llawr. Byddai rhai'n aros ar ôl i weini ar y mag ond byddai hyn yn golygu bod y gytref yn agored i ladron. Dim ond ar ôl i'r frenhines newydd godi ei gwenyn ei hun am ryw 5 wythnos y bydd strwythur oedran cymharol normal yn y gytref. Fel arfer rwy'n ei chael hi'n well gadael llonydd i'r gytref uchaf gyda'i brenhines newydd ac, os yw'n cynyddu digon tra bydd llif neithdar o hyd, rwy'n ychwanegu gwahanlen a llofft fêl (lloffydd mêl). Yr adeg arall i osgoi newid drysau yw os oes dwyn ar y gweill – arhoswch tan gyda'r nos neu ddiwrnod arall pan fydd pethau wedi tawelu.

Un o fanteision mawr bwrdd Snelgrove yw ei fod yn eich galluogi i wneud amrywiaeth o bethau o dan un to. Mae hyn yn golygu mai un set o bopeth sydd ei hangen - un stand, un llawr, un clawr, un to. Gallwch wneud pob math o bethau gyda'r gytref ar y bwrdd Snelgrove; gallwch ei hailuno â'r gytref waelod; gallwch ei symud i ffwrdd a rhoi annibyniaeth iddi, gallwch ei huno â chytref sydd heb frenhines. Os yw'r gytref ar y bwrdd Snelgrove yn methu cynhyrchu brenhines newydd am ryw reswm, gallwch dynnu'r bwrdd ac uno'r ddwy gytref. Mae'r twll yn y bwrdd â rhwyllau drosto'n golygu bod arogl tebyg i'r gytref uchaf ac isaf ac fel arfer mae'n bosib eu huno heb ddefnyddio papur. Eto, os oes dwyn yn digwydd, dylech fod yn fwy gofalus. Yr unig offer ychwanegol sydd eu hangen yw blychau a fframiau ychwanegol a'r bwrdd Snelgrove ei hun. Oherwydd nad yw byrddau Snelgrove yn rhan arferol o offer gwenyn, dydyn nhw ddim yn bethau rhad i'w prynu ond maen nhw'n hawdd iawn eu gwneud - dim uniadau ffansi, dim ond torri manwl gywir, hoelio a gludo. Peidiwch â chael eich temtio i dorri mynedfeydd mewn clawr arferol (fel sy'n cael ei gynghori weithiau) gan na fyddwch yn cael bwrdd digon da.

Defnyddio Bwrdd Snelgrove

Ar ôl trafod tarddiad bwrdd Snelgrove a'r egwyddorion ar gyfer ei ddefnyddio, down at y cwestiwn hollbwysig, beth allwch chi ei wneud ag ef? Dyma restr o'r prif ddefnydd a byddaf yn rhoi sylw manwl i'r rhain mewn erthyglau diweddarach yn y gyfres hon.

- 1) Cymryd camau rhagweithiol i atal heidio (defnydd gwreiddiol y bwrdd, fel sy'n cael ei ddisgrifio uchod) – i'w ddefnyddio pan nad oes celloedd brenhines yn y gytref.
- 2) Rheoli heidio – i'w ddefnyddio pan fydd celloedd brenhines yn y gytref. Mae Snelgrove yn disgrifio dau ddull (wel, tri a dweud y gwir, ond dydw i ddim wedi rhoi cynnig ar y trydydd).
 - a) Dull I (fel y mae'n ei alw) sef haid artiffisial fertigol (pob un o dan yr un to), sef yr un peth yn y bôn â dull Pagdon.
 - b) Dull II (nad oes enw iddo), sef rhoi'r holl fag a chelloedd brenhines a'r frenhines ar fwrdd Snelgrove yn rhan uchaf y cwch. Mae'r celloedd brenhines yn cael eu rhwygo i lawr, mae'r frenhines yn dechrau dodwy eto a rhyw 10 niwrnod yn ddiweddarach, mae ail gylch o drin a thrafod yn dod â'r frenhines i lawr eto i ailymuno â'r gwenyn sy'n hedfan yng ngwaelod y cwch. Mae hyn yn groes i'r graen ar yr olwg gyntaf, ond mae'n gweithio ac mae esboniad rhesymegol.
- 3) Cynyddu a magu breninesau – yr olaf ar raddfa fach (sef yr hyn dylen ni fod yn ei wneud beth bynnag i gynnal amrywiaeth enetig). Mae codi breninesau newydd a'r potensial i sefydlu cytrefi newydd (neu uno cytrefi'n hawdd os nad ydych chi eisiau eu cynyddu) i gyd yn sgil gynhyrchion y dulliau uchod o atal a rheoli heidio.
- 4) Mae ambell ddefnydd cyfrwys arall rwy'n amau roedd Snelgrove wedi'u bwriadu, ond, serch hynny, maen nhw'n ddefnyddiol i ddatrys problemau penodol.

RHAN 2 – DULL I: I'W DDEFNYDDIO GYDA CHYTREFI NAD YDYNT WEDI CEISIO HEIDIO ETO (HEB GELLOEDD BRENHINES)

Cefndir

Allaf i ddim rhagori ar Snelgrove, felly caiff siarad drosto'i hun drwy atgynhyrchu'r paragraff agoriadol o'r rhagair i'r Argraffiad Cyntaf o'i lyfr (*Swarming - its Control and Prevention*) a gyhoeddwyd yn 1934 - mae'n dweud y cyfan. 'Mae'r broblem o reoli ac atal heidio wedi bod yn destun myfyrdod i ddynion ers dechrau cadw gwenyn mewn cychod. Mewn rhai ffyrdd, dwysaodd y broblem drwy ddyfeisio crwybrau symudol, rhywbeth a'i gwnaeth hi'n fwy posibl i'w rheoli. Ychydig o anhawster y mae'r rhan fwyaf o wenynwyr heddiw'n ei gael i reoli gwenyn yn llwyddiannus 10 mis o'r flwyddyn (**Noder** - roedd hyn bron i 60 mlynedd cyn i Varroa ymddangos) ond pan fydd y misoedd heidio'n dod, ac maen nhw'n edrych ymlaen at gael cnwd da o fêl yn wobr am eu llafur a'u gofal, maen nhw'n siomi ac yn aml yn diflasu'n llwyr wrth i heidiau ddiflannu'n gyson o'u cytrefi gorau. Mae sawl dull o atal heidio wedi cael eu dyfeisio ond does dim llawer yn eu defnyddio nhw; rhai oherwydd bod angen trin a thrafod lletchwith, aml neu annymunol; ac eraill oherwydd eu bod yn torri ar draws prif bwrpas cadw gwenyn - hynny yw, cynhyrchu mêl. Does dim llawer wedi newid ers i'r geiriau hynny gael eu hysgrifennu. Byddaf yn dychwelyd at y cwestiwn pwysig hwn o effaith rheoli ac atal heidio ar gynhyrchu mêl yn Rhan 4, ar ôl imi ddisgrifio'r dewisiadau gwahanol.

Ar ddechrau Pennod 1 mae gan Snelgrove frawddeg arall arwyddocaol sy'n dangos cystal roedd yn deall problemau ymarferol gwenyna. 'Yn ein rhan ni o'r byd (roedd yn byw yn Weston-super-Mare – ar arfordir yr Iwerydd ym Mhrydain) mae anwadalwch y tywydd yn peri problemau annisgwyl i'r gwenynwr, problemau sy'n dreth i'r eithaf ar ei amynedd a'i ddyfeisgarwch'. Gwir iawn! Nid yw'r rhan fwyaf o lyfrau gwenyna'n sôn am yr effaith y mae tywydd gwael yn ei chael ar heidio. Mae profiad yn dangos, pan fydd cytrefi mawr o wenyn yn gaeth i'r cwch am sawl diwrnod, fod hyn yn aml yn cyd-daro â dechrau paratoi at heidio. Wyddon ni ddim beth yw'r union sbardun i heidio ond mae'n debyg fod a wnelo hyn â chwch gorlawn am gyfnod. Yr un peth nad oes gennym ni wenynwyr reolaeth drosto yw'r tywydd – y cyfan y gallwn ni ei wneud yw gobeithio'r gorau ond tybio'r gwaethaf!

Dull 1

Dyma'r hyn a ddyfeisiodd Snelgrove yn wreiddiol i'w fwrdd ei wneud. Gwelodd yn fuan y gallai gael ei ddefnyddio at bethau eraill (e.e. ei Ddull II - testun Rhan 3 yr erthygl hon) a, gydag ychydig o ddychymyg, mae modd dyfeisio defnyddiau eraill. Roedd hi'n hysbys ers tro bod rhannu cytref wrth iddi gyrraedd ei llawn dwf, a chyn i unrhyw gelloedd brenhines gael eu cynhyrchu, yn atal heidio fel arfer. Ond, canlyniad pob dull o rannu yw dyblu (posibl) yn nifer y cytrefi. Yn ogystal â blwch newydd o grwybrau i osod y rhaniad ynddo, gyda'r rhan fwyaf o'r dulliau blaenorol mae angen stand, llawr, clawr, a tho newydd a lle newydd yn y wenynfa i osod y rhaniad. Mae hyn yn iawn os ydych chi eisiau cynyddu nifer y cytrefi. Os nad ydych chi eisiau gwneud hyn, yna mae problemau logistaidd lletchwith yn eich wynebu o ran ailuno'r cytrefi i gael popeth yn ôl i'r man cychwyn ar ddiwedd y tymor. Mae rhannu'n fertigol yn cael gwared ar y rhan fwyaf o'r problemau hyn ac yn arbed prynu offer - mae popeth ar un stand o dan yr un to. Hefyd, fel yr eglurwyd yn Rhan 1, drwy ddefnyddio'r paru o ddrysau ar Fwrdd Snelgrove (cyfeirir ato o hyn ymlaen fel BS), mae'n hawdd addasu nifer y gwenyn sy'n mynd i ddau hanner y rhaniad. O fewn rheswm, gallwch raddol ddargyfeirio nifer sylweddol o wenyn i'r gytref yng ngwaelod y rhaniad (y rhan sy'n cynnwys yr hen frenhines), sef y brif uned cynhyrchu mêl. Yr unig anfantais i raniad fertigol yw, er mwyn edrych ar y gytref waelod, fod rhaid ichi godi'r gytref uchaf i ffwrdd yn gyntaf. Ond gan mai holl bwrpas y rhannu yw atal heidio, ar ôl i'r rhannu ddigwydd, mae'r gytref waelod yn hynod annhebygol o heidio. Does dim angen edrych yn gyson yn yr ardal fagu am gelloedd brenhines ac, ond bod digon o le i'r gytref waelod

storio mêl - dylech roi digon o loffydd mêl iddi wrth rannu - gallwch ei hanwybyddu i raddau helaeth am weddill y tymor. Gan nad oes brenhines, bydd y gytref uchaf yn gwneud celloedd brenhines brys a fydd hi ddim yn ceisio heidio ar unrhyw gyfrif. Os aiff popeth yn iawn, mewn 4-5 wythnos dylai fod gan y gytref uchaf frenhines newydd sy'n dodwy ond, os na ddigwydd hyn, gallwch ailuno'r ddwy hanner yn syml iawn. Mae ailuno'n hawdd oherwydd bod y twll â rhwyllau drosto yng nghanol y BS yn sicrhau bod arogl cwch tebyg (os nad yn union yr un fath) i'r gytref uchaf a'r un waelod. Gellir uno'r ddwy gytref yn raddol; yn gyntaf dylid tynnu'r panel rhwyllau fel bod y gwenyn yn gallu cymysgu a dylid newid y drysau ar y BS fel mai dim ond drwy'r drws ar flaen y cwch y gall y gytref uchaf fynd allan. Ar ôl ychydig ddyddiau, gellir tynnu'r BS a bydd y gwenyn yn addasu'n fuan i'r fynedfa arferol ar waelod y cwch. Yr unig adeg i fod yn ochelgar am uno yw os oes dwyn ar y gweill. O dan yr amodau hyn, mae'n well aros ddiwrnod neu ddau neu uno wrth iddi ddechrau nosi.

Cyflunio'r Cwch ar gyfer Dull 1

Mae Snelgrove yn disgrifio'r trin a'r trafod sydd ei angen yn fanwl iawn, o ran cytref sydd ar focs magu dwbl (dwfn). Pan geision ni ddefnyddio dulliau Snelgrove yn gyntaf, newidion ni sawl cwch i fod yn focs magu dwbl ond sylweddolon ni'n fuan nad oedd angen hyn a bod addasu'r dull i'n cwch arferol ni, sef bocsg magu a hanner (un bocsg magu dwfn ac un bas) yn eithaf syml. Gwelon ni fod dau focs dwfn yn rhoi llawer gormod o le i'r rhan fwyaf o gytrefi o wenyn du (neu bron yn ddu) oni bai bod nifer y fframiau'n cael eu lleihau drwy ddefnyddio byrddau ffug (*dummy boards*). Ar gyfer math mwy toreithiog o wenyn (sef yr hyn oedd gan Snelgrove, debyg iawn, oherwydd mae'n sôn am fod â 3 bocsg dwfn ar rai cychod!), byddai dau focs magu dwfn yn iawn. I'r rhai sy'n cadw eu gwenyn ar system bocsg magu sengl dwfn, mae modd defnyddio'r dull yma hefyd. Ond, os ydych chi'n cadw gwenyn mewn cwch un blwch dwfn iawn (12 x 14 neu 'Commercial'), yna ychydig o ddefnydd sydd i ddulliau Snelgrove, yn fy marn i - byddai un blwch dwfn iawn ar y gwaelod ac un arall ar y BS yn ormod o le i unrhyw fath o wenyn ond y math mwyaf toreithiog.

Symleiddio Cyfarwyddiadau Snelgrove

Oherwydd bod Dull I Snelgrove wedi'i seilio ar ddamcaniaeth heidio Gerstung (a drafodwyd yn Rhan 1), gellir anwybyddu peth o'r trin a'r trafod y mae'n ei ddisgrifio. Bwriad hyn oedd sicrhau bod y nifer mwyaf o weinyddesau (*nurse bees*) yn cael eu tynnu o ran waelod y rhaniad (gyda'r hen frenhines ynddo) ac yn cael eu rhoi yn yr is-gytref yn rhan uchaf y cwch. Roedd damcaniaeth Gerstung o dan amheuaeth pan gyhoeddodd Snelgrove ei lyfr ond chafodd hi mo'i diystyru tan arbrofion Simpson yn Rothamptead yn niwedd y 1950au. Ar y sail hon – sydd wedi'i phrofi drwy brofiad ymarferol – nid oes angen gwneud llawer o'r hyn a ddisgrifir, fel peidio â gosod y BS am 48 awr ar ôl y rhannu neu adael y panel rhwyllau allan o'r bwrdd fel bod y nifer mwyaf posib o weinyddesau'n gallu symud i fyny i'r rhan uchaf. Ond bod y fframiau o fag sydd wedi'u rhoi ar y BS yn cyrraedd yno gyda'r gweinyddesau yn eu lle, mae hynny'n ddigon. Bydd digon o weinyddesau i ofalu am y mag a bydd mwy yn dod wrth i'r mag ddeor ac, wrth gwrs, fydd dim rhagor o ddodwy gan nad oes gan y rhan hon o'r cwch frenhines am y tro. Os ydych chi'n tarfu gormod ar y gwenyn am ryw reswm gallwch chi adfer y sefyllfa drwy fynd drwy gamau 7-10 Cynllun B (isod – ar gyfer pan na allwch ddod o hyd i'r frenhines).

Trin a Thrafod

Nawr byddaf yn disgrifio nodweddion cyffredinol y trin fel nifer o gamau. Yng nghanam 1 mae'n rhaid ichi ddod o hyd i'r frenhines ac mae hyn yn haws os yw hi eisoes wedi cael ei marcio. Yr adeg orau i farcio breninesau yw diwedd mis Ebrill neu ddechrau mis Mai, cyn i'r gytref fynd yn rhy fawr a phryd gallwch ddod o hyd iddi fel arfer wrthi'n brysur ar ffrâm sydd â lle i ddodwy:-

- 1) Agorwch y cwch; ewch o dan y wahanlen at y mag a, chan ddefnyddio cyn lleied o fwg ag sy'n bosibl, dewch o hyd i'r frenhines – dyma Gynllun A! Rwy'n gwybod bod y cyfarwyddyd hwn yn codi ofn ar sawl gwenynwr ond mae Cynllun B (isod) lle nad oes rhaid dod o hyd i'r frenhines. Ond, fy nghyngor i yw rhoi cynnig ar Gynllun A yn gyntaf; mae'n tarfu llawer yn llai ar y gwenyn, mae'n cymryd llai o amser ac mae'n rhoi llawer mwy o foddhad i'r gwenynwr (h.y. chi). Ar ôl chwilio'n ofalus am frenhines am 10 munud, dyweder, ac rydych chi heb ddod o hyd iddi, wedyn, a dim ond wedyn, trowch at Gynllun B. Gwnaethon ni hyn dros sawl blwyddyn ac yn raddol daethon ni'n well am ddod o hyd i'r frenhines ac rydyn ni bellach braidd yn siomedig os oes rhaid troi at gynllun B – ond mae hynny'n digwydd o dro i dro.
- 2) Ar ôl dod o hyd i'r frenhines, rhowch hi mewn lle diogel; mewn caets (mae'r math o gaets marcio gyda darn o sbwng melyn i'w gau'n dda) neu rhowch hi ar y ffrâm y mae hi arni mewn blwch cnewyll diogel (gyda'r fynedfa wedi'i chau) a gorchuddiwch hi. Nawr mae rhywdd hynt ichi archwilio a rhannu'r fframiau heb beryglu'r frenhines.
- 3) Y dasg nesaf yw rhannu'r fframiau magu (a storfeydd) a phenderfynu pa rai fydd yn aros yng ngwaelod y cwch gyda'r frenhines a pha rai fydd yn mynd i ran uchaf y cwch ar y BS. Mae digon o hyblygrwydd fan hyn – o fewn rheswm! Rwy'n gwybod bod hyn yn swnio'n amhendiant ond mae sut rydych chi'n rhannu'r fframiau'n dibynnu ar yr hyn rydych chi eisiau ei gyflawni a byddaf yn trafod hyn isod gyda rhai enghreifftiau go iawn – ond yn y bôn, mae cyfran sylweddol o'r mag yn mynd i'r rhan uchaf ar y BS ac mae'r frenhines yn aros ar y gwaelod gyda'r hyn sy'n weddill o'r mag.
- 4) Ailadeiladwch y cwch gyda'r blwch (neu flychau) o fframiau sydd i fynd i'r gwaelod ar y llawr – **HEB** anghofio ailgyflwyno'r frenhines atyn nhw.
- 5) Gosodwch y wahanlen (*queen excluder*) a'r nifer digonol yn eich barn chi o lofftydd mêl ar ei phen – dyw hi ddim yn ddiwedd y byd os nad ydych chi'n gywir fan hyn. Os yw'r llif mêl yn well na'r disgwyl mae'n debyg na fyddwch chi'n gwarafun y dasg o ychwanegu rhagor o lofftydd mêl!
- 6) Wedyn gosodwch y BS (lle byddai'r clawr yn mynd fel arfer) a rhowch y blwch o grwybrau rydych chi wedi'u dewis i fynd i ben y cwch arno. Ychwanegwch y clawr a'r to.
- 7) Yn olaf, **PEIDIWCH AG ANGHOFIO** agor drws sy'n cysylltu â rhan uchaf y BS fel y gall y gwenyn hedfan ohono – os anghofiwch chi byddan nhw'n cael eu cloi i mewn ac yn marw os cânt eu gadael fel hyn am gyfnod o amser. Drws ar un ochr yw'r dewis gorau fel arfer.

Nawr dyma rai enghreifftiau i ddangos sut mae mynd ati i rannu'r crwybrau. Hefyd maen nhw'n cael eu dangos yn y diagramau sy'n dangos sut mae'r crwybrau wedi'u rhannu a ffyrdd nodweddiadol o roi'r cwch at ei gilydd:-

Enghraifft 1 – mae hi'n ddiwedd mis Mai, mae llif y gwanwyn wedi dod i ben a does dim disgwyl i'r llif da nesaf ddod tan ddiwedd mis Mehefin ac efallai ymlaen i'r drydedd wythnos ym mis Gorffennaf. Mae'r cwch ar focs mag a hanner; mae'r bocs dwfn (ar y gwaelod) fwy neu lai'n llawn o fag o'r naill wal i'r llall ac mae'r bocs bas (ar ei ben) yn 50/50 mag a mêl wedi'i selio a heb ei selio. Y prif nod yw atal y gytref rhag heidio cyn i'r llif nesaf ddechrau ymhen 3-4 wythnos, a byddai brenhines newydd yn sgil gynnyrch defnyddiol. Gan dybio bod 12 ffrâm (Hoffmann) i'r blwch (fel arfer mae gennym 11 a bwrdd ffug), byddwn yn dewis 8-9 ffrâm o'r bwrdd dwfn i fynd i'r rhan uchaf. Gan y bydd y gytref hon yn brin o wenyf fforio am dipyn, byddwn yn cynnwys rhai fframiau sydd â pheth storfeydd ynddyn nhw ond gellir anwybyddu hyn os yw'r fframiau a ddefnyddir i wneud y boc

yn cynnwys storffeydd. Byddai'r bocs gwaelod (dwfn) yn cynnwys 8-9 ffrâm wedi'u tynnu (neu gymysgedd o gelloedd wedi'u tynnu a sylfaen (*foundation*)) a bydd y blwch i fynd i'r BS yn cynnwys 3-4 ffrâm wedi'u tynnu (gorau oll os ydynt yn cynnwys rhai storffeydd). Yn yr enghraifft hon byddwn i'n rhagweld newid y drysau ar y BS ddwywaith i drosglwyddo gwenyn i'r gytref waelod; mae'n debyg ar ddyddiau 5-7 a 10-12 ond byddwn i'n gwirio nifer y gwenyn sydd yno cyn newid yr eildro. Fyddai dim newid i'r drysau ar ôl diwrnod 12 pan allai fod brenhines wryfol yn y gytref uchaf (mae brenhines a fagwyd o larfa 1 diwrnod oed yn dod allan ar ddiwrnod 12). Bwriad y rhannu yw rhoi ergyd weddol i'r gytref ar waelod y cwch felly, erbyn i'r mag ailsefydlu'n iawn, bydd llif neithdar yn digwydd – a byddai'n dod i ddiwedd y tymor heidio beth bynnag. Gellir amrywio nifer y crwybrau rydych chi'n eu trosglwyddo i'r blwch sy'n cael ei roi ar y BS i fyny neu i lawr yn ôl y sefyllfa. Mae'n debyg mai tua 5 ffrâm o fag a gwenyn yw'r lleiafswm rhesymol (i wneud cytref hyfyw ar y BS) a phob un o'r 12 ffrâm yw'r uchafswm. Gallwch deilwra'r rhaniad yn ôl y sefyllfa fel y gwelwch chi hi; yn dibynnu ar faint y gytref, oedran y frenhines, adeg y flwyddyn, y llif neithdar rydych chi'n ei ragweld a pha mor debygol yw hi y bydd y gwenyn yn heidio.

Enghraifft 2 – Mae hi'n ddechrau mis Mai, mae gan y gytref hen frenhines ac, er ei bod hi'n dodwy'n eithaf da, mae angen ei disodli cyn gynted â phosibl – felly nid rheoli heidio yw'r prif beth yma. Os yw'r bocs magu bas yn cynnwys o leiaf 50% o fag, gan gynnwys wyau a larfae ifanc, hwn y byddwn i'n ei roi yn rhan uchaf y cwch ar y BS – fel y mae a heb newid y crwybrau. Os nad oedd digon o wyau yn y bocs magu bas, byddwn i'n cyflwyno cwpwl o fframiau gwag wedi'u tynnu yn y canol ac aros 2-3 diwrnod tan i'r frenhines ddodwy ynddyn nhw. Rhan waelod y cwch fyddai'r bocs magu dwfn sydd yno'n barod – a'r frenhines hefyd, wrth gwrs – heb newidiadau yma chwaith. Byddai'n dibynnu ar ba mor dda roedd yr hen frenhines yn dodwy a fyddwn i'n rhoi blwch newydd gwag o fframiau wedi'u tynnu yn lle'r bocs magu bas ar waelod y cwch yr adeg honno. Dewis arall ar yr adeg hon o'r broses fyddai penderfynu a oeddech chi eisiau newid y math o weny. Os oedd yr hen frenhines yn dderbyniol, yna byddwn i'n derbyn ei merch fel y frenhines newydd. Os nad oedd, byddwn i'n aros 5-6 diwrnod, dinistrio **pob** cell brenhines ar y BS a chyflwyno ffrâm bas gydag wyau a larfae ifanc o gytref a oedd yn ddymunol. Dros gyfnod y rhannu, fyddwn i ddim yn newid unrhyw ddrysau er mwyn cadw nifer llawn y gwenyn ar y BS – hynny yw, ar ôl i'r gwenyn oedd yn hedfan ymadael. Pan oedd brenhines newydd wedi'i sefydlu ac yn dodwy'n dda ar y BS, byddwn i'n cael gwared ar yr hen frenhines yng ngwaelod y cwch ac yn ailuno'r cwch drwy symud y bocs magu bas a'r frenhines newydd i lawr – ffordd hawdd o roi brenhines newydd i gytref ac ar yr un pryd gadw'r hen frenhines a'i gallu i ddodwy tan i'r un newydd fod yn barod i gymryd drosodd.

Enghraifft 3 - Dim ond amrywiad ar Enghraifft 2 yw hon i'w defnyddio pan fyddwch chi eisiau codi breninesau newydd o frenhines ddymunol ond heb amharu'n ddifrifol ar allu'r cwch i gynhyrchu mêl. Eto, byddwn i'n rhoi'r bocs magu bas ar y BS ond yn cyflwyno bocs magu bas gwag newydd i waelod y cwch lle gallai'r frenhines ddymunol ehangu ei dodwy eto. Ar ôl 8-9 diwrnod byddwn i'n edrych ar y blwch ar y BS i weld sawl ffrâm oedd â chelloedd brenhines da (wedi'u selio erbyn hyn) arno. Byddwn i'n gwneud rhai cnewyll (un yn llai na nifer y fframiau sydd â chelloedd brenhines) yn cynnwys gwenyn, fframiau magu a bwyd o ryw gytref neu gytrefi eraill (gallai hyn fod yn rhan o'u rheoli heidio) ac yna, ar ôl tua 24 awr i'w gadael i ymdawelu, byddwn i'n dosbarthu'r fframiau sydd â chelloedd brenhines rhyngddyn nhw. Nodwch fod **RHAID** medi'r fframiau sydd â chelloedd brenhines cyn tua'r degfed diwrnod neu bydd y gwenyn yn dechrau lladd y rhai nad ydyn nhw eu heisiau. O'u gadael fel y maent bydd y gwenyn yn lleihau nifer y celloedd brenhines i un yn unig a gaiff ddeor, a fyddan nhw ddim yn ceisio heidio. Byddai un ffrâm â chelloedd brenhines yn cael ei gadael ar y BS i godi brenhines newydd yno a byddai fframiau wedi'u tynnu'n cael eu rhoi yn lle'r fframiau a dynnwyd (y rhai a aeth i'r cnewyll). Mae sawl diben i'r enghraifft hon ac mae wedi cyflawni sawl peth gwahanol; mae wedi llwyddo i reoli heidio o'r cwch lle magwyd y breninesau; mae wedi magu sawl brenhines mewn cnewyll a hefyd un ar y BS; a hefyd mae wedi bod yn fodd o reoli heidio yn y gytref (neu'r cytrefi) a ddefnyddiwyd i roi gwenyn yn y cnewyll.

Gobeithio bod yr enghreifftiau hyn wedi dangos pa mor hyblyg y gall Dull I Snelgrove (rhannu'r gyrtref yn rhagweithiol) fod. Pan fyddwch chi wedi'i ddeall yn iawn, gallwch chi'n hawdd feddwl am amrywiadau eraill yn ôl eich anghenion chi neu anghenion eich gwenyn. Gadawaf i Ran 3 yr hyn y gallwch ei wneud gyda'r gyrtref newydd a gynhyrchir ar y BS (os yw'r frenhines yn llwyddiannus).

Cynllun B – os na allwch ddod o hyd i'r frenhines.

Dyma'r rhan y mae rhai ohonoch chi wedi bod yn disgwyl amdano ac yn syml iawn, ffurf ar haid wedi'i siglo ydyw. Mae'n golygu tipyn o lanast ond mae modd lleihau'r llanast a'r perygl o golli neu niweidio'r frenhines drwy fod yn drefnus. Dylai fod gennych flwch (neu flychau) gwag ar gael o'r math rydych chi'n mynd i ysgwyd y gwenyn ohonynt i osod y fframiau ynddynt ar ôl iddynt gael eu hysgwyd. Dyma'r camau wedi'u rhifo ar gyfer y trin a'r trafod:-

- 1) Mae'r cwch ar agor gennych yn barod, rydych wedi chwilio am y frenhines (gobeithio) ac wedi methu – mae'n digwydd i bawb!
- 2) Y cam cyntaf yw penderfynu pa fframiau sy'n mynd i fynd i'r rhan uchaf ar y BS a'u rhoi nhw at ei gilydd mewn boc – efallai bydd boc sbâr yn help.
- 3) Rhowch y boc neu'r bocsys sy'n mynd i ffurfio gwaelod y cwch ar y llawr a gwnewch le yn y canol y gallwch ysgwyd gwenyn o fframiau iddo.
- 4) Nawr gallai'r frenhines fod yn unrhyw un o'r fframiau – y rhai ar y gwaelod neu'r rhai sy'n mynd i'r top.
- 5) I sicrhau bod y frenhines ar y gwaelod, y cyfan sydd angen ei wneud nawr yw ysgwyd y fframiau o'r boc sydd i fynd i'r top i'r gwaelod, gan eu gosod yn y boc sbâr wrth ichi fynd yn eich blaen. Ar ôl ysgwyd y crwybrau i gyd o focs, brwsiwch unrhyw wenyn sy'n glynu wrth y waliau (gallai'r frenhines fod yn un ohonynt) i'r boc derbyn.
- 6) Pan fydd hyn wedi'i gwblhau – oni bai eich bod chi wedi bod yn esgeulus – bydd y frenhines yng ngwaelod y cwch. Dyw'r frenhines ddim yn y boc (neu'r bocsys) o fframiau sy'n cynnwys mag sydd i fynd ar y BS ond does dim gwenyn ar y fframiau chwaith – mae angen eu hailboblogi.
- 7) Rhowch wahanlen ar y boc (neu'r bocsys) gwaelod a rhowch y boc (neu'r bocsys) wedi'u hysgwyd – gyda mag ond dim gwenyn – ar ei phen a rhowch y cwch at ei gilydd dros dro (h.y. ychwanegwch y llofftydd mêl a'r to i gadw pawb yn hapus).
- 8) Gadewch y cwch fel hyn am ryw awr, ac erbyn hynny bydd y gweinyddesau wedi symud i fyny i orchuddio'r mag ond bydd y frenhines yn dal yn y gwaelod.
- 9) Nawr gallwch roi'r cwch at ei gilydd eto'n derfynol, gyda'r boc (neu'r bocsys) o fag a'r gwenyn hefyd ar y BS.
- 10) Ar ôl yr holl drin a thrafod – sy'n ddigon syml ond sy'n cymryd amser – PEIDIWCH ag anghofio agor drws ar y BS i'r gwenyn hedfan ohono.

Nawr rydych chi'n ôl yn y man lle byddech chi wedi bod petaech chi wedi gallu dod o hyd i'r frenhines ond mae hi dros awr yn ddiweddarach. Yn ystod y cyfnod aros gallwch chi ddefnyddio'r

amser i edrych ar gytrefi eraill – neu fynd i gael paned o de. Nid yw Cynllun B yn benodol i Ddull I Snelgrove ond gallwch ei ddefnyddio mewn unrhyw sefyllfa lle mae angen i'r frenhines fod mewn rhan benodol o'r cwch ond na allwch ddod o hyd iddi, e.e. ar gyfer heidio artiffisial.

RHAN 3 – DULLIAU I'W DEFNYDDIO PAN FYDD CELLOEDD BRENHINES YN Y CWCH: HEIDIO ARTIFFISIAL A DULL II

Cefndir

Yn nhrydedd rhan y gyfres rydyn ni'n symud o ddulliau rhagweithiol o reoli heidiau (i'w defnyddio cyn y bydd celloedd brenhines mewn cwch) i ddulliau adweithiol (pan fydd celloedd brenhines yno). Doedd hyd yn oed yr hynod drylwyr Leonard Snelgrove ddim yn ei chael hi'n iawn bob tro gyda'i ddull rhagweithiol o reoli heidiau (Dull I – a ddisgrifiwyd yn Rhan 2). Fel y gweddill ohonom, weithiau byddai'n agor cwch ac yn gweld bod celloedd brenhines eisoes wedi cael eu dechrau. I ddechrau, ei ymateb i sefyllfa fel hon oedd gwneud haid artiffisial ar y gytref. Fel gyda phob dull o heidio artiffisial, mae hyn yn golygu rhannu'r gytref yn ddwy; **haid artiffisial**, sy'n cynnwys y frenhines a'r gwenyn sy'n hedfan a dim ond llond dwrn o weinyddesau, a'r rhan arall, y **gytref wreiddiol**, sy'n cynnwys y mag i gyd, y celloedd brenhines a'r rhan fwyaf o'r gwenyn nad ydyn nhw'n hedfan. Fel arfer mae'r haid artiffisial yn aros yn ei safle gwreiddiol ac, mewn haid artiffisial gonfensiynol (e.e. Dull Pagden), mae'r gytref wreiddiol yn cael ei gosod mewn safle newydd yn yr un wenyfa. Pan fydd y gwenyn sy'n hedfan yn dod allan o'r gytref wreiddiol maen nhw'n dychwelyd i'w lleoliad blaenorol ac yn ymuno â'r haid artiffisial.

Yn Null Pagden, ar ôl yr hollti, mae'r gytref wreiddiol yn cael ei gosod yn agos at yr haid artiffisial, ar un ochr yn gyntaf ac yna, ar ôl ychydig ddyddiau, mae'n cael ei symud i'r ochr draw. Ar ôl ychydig o ddyddiau eto (ond mae brenhines sydd wedi deor yno) mae'r gytref wreiddiol yn cael ei symud i leoliad pellach draw yn y wenyfa. Yn y safle cyntaf mae'r gytref wreiddiol yn colli ei holl wenyfa sy'n hedfan i'r haid artiffisial. Yn y cyfamser, mae mwy o wenyfa cartref yn cael eu dyrchafu i ddyletswyddau hedfan a, phan fydd y gytref wreiddiol yn cael ei symud i ochr draw'r haid artiffisial, mae'r gwenyn hyn sydd newydd ddechrau hedfan yn dychwelyd i'r gytref agosaf y gallant ddod o hyd iddi, sef yr haid artiffisial eto. Bwriad y trin a'r trafod hwn yw cael y nifer mwyaf posib o wenyfa yn yr haid artiffisial, sef y brif ran sy'n cynhyrchu mêl ar ôl y rhaniad. Ar yr un pryd, mae'n tynnu'r holl wenyfa sy'n hedfan o'r gytref wreiddiol, bron a bod, felly dyw honno ddim yn ceisio heidio ac mae'n mynd ati i ddewis brenhines o'r rhai sydd ar gael yn y celloedd brenhines. Mae pob cell brenhines dros ben yn cael ei rhwygo ymaith a'r cynnwys yn cael ei ladd a, maes o law, mae'r frenhines yn cyplu ac yn dechrau dodwy. Er gwaethaf yr hyn y mae rhai llyfrau gwenyna'n ei ddweud, **does DIM angen teneuo'r celloedd brenhines**.

Mewn gwirionedd, dyw'r rhan fwyaf o wenyfwyr ddim yn ffwdanu symud y gytref wreiddiol ddwywaith, ac maen nhw'n ei rhoi'n syth yn y safle newydd yn y wenyfa ac yn gadael iddi. Does dim yn bod ar wneud hyn ac, ond bod y gwenyn sy'n hedfan yn y gytref wreiddiol adeg y rhannu'n dychwelyd i'r haid artiffisial, fydd y gytref wreiddiol ddim yn ceisio heidio. Yr unig anfantais yw y bydd llai o wenyfa yn yr haid artiffisial a bydd yn gwneud llai o fêl. O ran diddordeb, petai'r gytref wreiddiol yn cael ei chau a'i symud yn syth i wenyfa arall byddai hi'n heidio, bron yn anochel! Gwn nad yw hyn yn digwydd fel arfer wrth wenyfa ond gall rhywbeth tebyg ddigwydd os yw cytref yn cael ei rhannu ac yn cael ei gwneud yn sawl cnewyllyn i wenyfwyr eraill fynd â nhw adref. Mae'r canlyniad gwahanol yn dangos tipyn am y mecanwaith sy'n sail i heidio artiffisial. Meddyliwch am y peth ac fe rof i fy esboniad i yn Rhan 4.

Mae'r haid artiffisial i **fod** i roi'r gorau i'r syniad o heidio a dechrau mynd ati i ailadeiladu. **Os** yw hyn yn digwydd yn ôl y cynllun, bydd yn cynnwys digon o wenyfa i gynhyrchu cnwd rhesymol o fêl pan

fydd y llif neithdar nesaf yn digwydd. Rwyf wedi defnyddio'r geiriau **i fod ac os** yn fwriadol oherwydd allwch chi ddim dibynnu ar ganlyniad rhan yr haid artiffisial o'r rhaniad. Bydd y gytref wreiddiol yn iawn os gellir cael y frenhines newydd i gyplu a dodwy, ond yn aml iawn mae heidiau artiffisial yn aml iawn yn cadw'r awydd i heidio. Mae ffyrdd o leihau'r perygl o geisio heidio eto a chaiff y rhain eu trafod yn yr adran nesaf. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad oes dim y gellir ei wneud i gael gwared ar y perygl yn llwyr.

Addasiad Snelgrove o'r Haid Artiffisial

Dim ond **haid artiffisial fertigol** yw hon, lle mae'r **gytref wreiddiol**, yn hytrach na chael ei rhoi ar stand newydd, yn cael ei gosod ar fwrdd Snelgrove (BS) ar ben **yr haid artiffisial**. Mae trefn y trin a'r trafod yn Ffigur 2:-

- a) Mae'r cwch yn cael ei dynnu'n ddarnau ac yn cael ei osod yn ddau bentwr (mae to sbâr neu flwch gwag yn ddefnyddiol) – gydag un pentwr yn cynnwys y bocsys magu a'r llall yn cynnwys y llofftidd mêl.
- b) Mae bocws dwfn newydd o grwybrau'n cael ei roi ar yr hen lawr – fframiau wedi'u tynnu sydd orau ond gellir defnyddio peth fframiau sylfaen.
- c) Rydych chi'n dod o hyd i'r frenhines yn y pentwr magu ac yn ei throsglwyddo i'r bocws newydd. Os na allwch ddod o hyd iddi gallwch droi at Gynllun B a defnyddio'r dull ysgwyd fframiau a ddisgrifiwyd yn Rhan 2.
- ch) Mae'r bocws newydd hwn, sy'n cynnwys yr **haid artiffisial**, yn aros yn ei safle gwreiddiol. Bydd yr holl wenyn sy'n hedfan yn ymgasglu yn y bocws hwn gyda'r frenhines.
- d) Os na fydd yr ymgais i heidio'n digwydd yn gynnar iawn, bydd un bocws dwfn o grwybr yn rhoi digon o le fel arfer i'r mag er mwyn ailadeiladu'r gytref tan ddiwedd y tymor.
- dd) Mae gwahanlen yn cael ei gosod ar ben y bocws newydd a'r llofftidd mêl yn cael eu hychwanegu.
- e) Mae'r **gytref wreiddiol**, sy'n cynnwys y mag, yr holl gelloedd brenhines ac unrhyw wenyn sydd ar y fframiau, yn aros yn yr hen focs/ys mag sy'n cael ei osod/eu gosod ar BS ar ben y llofftidd mêl i gyd.
- f) Agorir drws ar y bwrdd (ar un ochr fel arfer). Mae'r gwenyn sy'n hedfan yn dod allan o'r drws hwn ond maen nhw'n dychwelyd i waelod y cwch i ymuno â'r haid artiffisial.
- ff) Ar ôl 4-5 diwrnod mae'r drws presennol i'r gytref wreiddiol yn cael ei gau ac mae'r drws yn union oddi tano'n cael ei agor. Agorir drws arall ar ben y BS (fel arfer 90° i'r hen un) i roi mynedfa newydd i'r gytref wreiddiol. Mae'r newid drysau hwn yn tynnu gwenyn o'r gytref wreiddiol i ymuno â'r haid artiffisial isod.
- g) Gallwch newid y drws eto mewn 4-5 diwrnod i dynnu rhagor o wenyn.

Mae'r newid drysau hyn yn cyfateb i symud y cwch ddwywaith yn Null Pagden – ond heb y tuchan a'r pwffian. Erbyn hyn (8-10 niwrnod ar ôl y rhaniad) mae'n debygol fod brenhines wryfol yn barod i ddeor yn y gytref wreiddiol a **rhaid rhoi'r gorau i newid drysau** er mwyn rhoi llonydd iddi fynd i hedfan er mwyn cyplu. Gallai newid drysau'n hwyr olygu bod brenhines yn dychwelyd o hedfan i gael ei chyplu ac yn mynd i mewn drwy gamgymeriad i ddrws sy'n arwain at yr haid artiffisial, lle gallai gael croeso llai na gwresog. Ond ar y llaw arall, oherwydd bod cytrefi sydd wedi'u gwahanu gan BS yn dal i arogl'n debyg iawn, efallai y gallai osgoi trafferth! Ond wedyn byddai gan y gwenynwr frenhines yn dodwy yn y llofftidd mêl!

Yn Ffigur 2 fe welwch chi fod un ffrâm sy'n cynnwys mag yng nghanol y bocws lle mae'r haid artiffisial. Ffrâm sydd wedi'i ddewis yn ofalus yw hwn nad yw'n cynnwys **unrhyw fag sy'n ddigon ifanc i gael ei droi'n gelloedd brenhines** - dim byd iau na diwrnod 6, ac yn hŷn os yw'n bosibl. Mae ffrâm yn llawn mag wedi'i selio'n well os gallwch ddod o hyd i un. NI fydd gwenyn yn gadael mag ar ei ben ei hun fel

arfer a bwriad y ffrâm hon yw eu hatal nhw rhag heidio yn ystod y diwrnod cyntaf ar ôl y rhannu. Nodwedd diogelwch arall yw rhoi nifer go lew o fframiau wedi'u tynnu i'r haid artiffisial. Y nod yw cael y frenhines i ddechrau dodwy eto cyn gynted ag sy'n bosib ac mae hyn yn lleihau'r siawns y byddan nhw'n heidio eto. Os defnyddir fframiau sylfaen, dylen nhw gael eu rhoi ar y tu allan i ddechrau. Gall y sefyllfa yn yr haid artiffisial fod yn 'fregus' am hyd at 3-4 wythnos, ac yn ystod y cyfnod hwn efallai y bydd y gytref yn penderfynu cynhyrchu cnwd newydd o gelloedd brenhines, a rhoi cynnig arall ar heidio. Rhoddir esboniad am yr awydd parhaus i heidio yn Rhan 4.

Dull II – Dull gwreiddiol

Darganfu Snelgrove y dull hwn o ganlyniad i heidio artiffisial, tebyg i'r hyn a ddisgrifir uchod, yn mynd o chwith. Gwelodd fod y breninesau mewn dau gwch roedd wedi'u heidio'n artiffisial wedi llwyddo i wasgu drwy'r wahanlen ac ailymuno â'r gwenyn a'r mag yn y blwch ar ben y BS. Cofiwch fod Snelgrove bob amser yn gadael y panel â rhwyllau ar y BS allan am 48 awr ar ôl y rhaniad - a dyna sut llwyddodd y breninesau i fynd yr holl ffordd i ben y cwch. Er mawr syndod iddo, pan aeth i'w harchwilio nhw wythnos yn ddiweddarach, gwelodd bod pob un o'r celloedd brenhines wedi'u rhwygo i lawr yn y ddau gwch a bod y ddwy frenhines wedi mynd ati i ddodwy eto. Mae hyn yn dangos sut un oedd Snelgrove - dyn craff iawn. Yn syth, sylweddolodd oblygiadau'r hyn roedd yn ei weld ac y gallai fod yn sail i ddull o reoli heidio. Felly rhoddodd gynnig arall arni, y tro hwn gan roi'r frenhines a'r holl fag yn rhan ucha'r cwch ar ben BS, ac, yn wir, dyma'r un peth yn digwydd eto.

Felly beth wnaeth e wedyn? Pan oedd yr holl gelloedd brenhines wedi'u rhwygo a'r frenhines wedi dechrau dodwy eto, daeth o hyd i'r frenhines a'i dychwelyd, ar y ffrâm roedd hi arni, i waelod y cwch i ailymuno â'r ffrâm artiffisial. Roedden nhw'n falch iawn o'i gweld hi hefyd, debyg iawn, oherwydd roedden nhw ar fin anobeithio a hwythau heb fodd o fagu brenhines newydd.

Dangosodd profiad pellach gyda'r dull mai dim ond un anfantais bosib oedd, oherwydd doedd hi ddim yn anarferol i'r gwenyn difrenhines oedd yn hedfan sylweddoli mai dim ond lan lofft roedd mam wedi symud i'r fflat yn y to ac felly roedden nhw'n symud ati hi. Yn y dechrau mae hyn yn peri i ymddygiad braidd yn rhyfedd ond amlwg iawn ddigwydd. Mae'r gwenyn sy'n dychwelyd i'r fynedfa yng ngwaelod y cwch, yn lle mynd i mewn drwy'r fynedfa, yn cerdded i fyny'r cwch a draw i ble bynnag mae'r drws agored. Maen nhw fel petaen nhw'n dilyn llwybr pendant y mae'r gwenyn yn amlwg wedi gadael arogl ar hyd iddo. Yn y pen draw mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n dysgu hedfan yn syth o ran uchaf y cwch (gan anwybyddu'r fynedfa waelod yn llwyr) ac mae'r bocsy'n cynnwys yr haid artiffisial yn cael ei adael bron yn llwyr. Wrth i'r gwenyn sy'n hedfan ddychwelyd i'r gytref wreiddiol, mae'r holl broses o reoli'r haid yn cael ei thanseilio; mae'r celloedd brenhines naill ai'n cael eu cadw neu eu hailadeiladu ac mae'r gytref yn ailgydio yn ei chynllun i heidio. Pan sylwodd ar hyn yn digwydd, ateb Snelgrove oedd symud y gytref wreiddiol, ar ei BS, a'i rhoi rywle arall yn y wenyntfa - fel arfer ar do cwch arall - lle byddai'n aros am rai dyddiau. Ond i hyn ddigwydd yn ddigon cynnar, mae'r haid artiffisial yn colli trywydd yr hen frenhines. Mae unrhyw wenyn sy'n hedfan sydd wedi ymuno â'r gytref wreiddiol yn dod allan yn eu lleoliad newydd ond yn dychwelyd i'r hen un, lle nad yw'r frenhines bellach. Pan fydd pethau wedi tawelu, gellir dychwelyd y gytref wreiddiol i'w safle gwreiddiol ar ben yr haid artiffisial. Bydd unrhyw wenyn sydd wedi dysgu hedfan tra oedd y gytref wreiddiol yn ei lleoliad dros dro yn ymuno â'r gytref y maen nhw wedi sefyll ar ei tho.

Pan roddon ni gynnig ar Ddull II ychydig flynyddoedd yn ôl, gwelson ni fod yr haid artiffisial yn dod o hyd i'r frenhines ar y BS yn eithaf cyson. Roedd rhaid cadw llygad barcut ar y cwch i weld nad oedd hyn yn digwydd ac, o weld arwyddion eu bod nhw wedi dod o hyd iddi, roedd rhaid ichi symud y gytref wreiddiol (a dod o hyd i do a chlawr ychwanegol) yn ogystal â chodi a chario'r cwch. Yn y bôn, roedd yn ormod o ffwdan ac aethon ni'n ôl i ddefnyddio'r dull mwy confensiynol o heidio artiffisial (a ddisgrifiwyd uchod).

Yna cawson ni syniad a holi beth fyddai'n digwydd, yn hytrach na gosod yr haid artiffisial ar grwybrau gwag i gyd, petaech chi'n rhoi rhai fframiau o fag iddyn nhw, i'w cadw nhw'n hapus? Efallai y byddai hyn yn rhoi diben i'w bywyd nhw a thynnu eu sylw o ddod o hyd i'r hen frenhines. Wrth gwrs gallen nhw wneud celloedd brenhines brys petai mag o oedran addas yno, ond doedd hyn ddim yn broblem o angenrheidrwydd. Mewn gwirionedd, efallai y gallai fod o fantais! Mae haid artiffisial yn cynnwys rhai gwenyn sydd o hyd, o leiaf yn rhannol, wedi'u hysgogi i heidio - sef y rheswm pam mai'r haid artiffisial yw'r rhan o'r rhaniad na allwch ddibynnu arni. Efallai y byddai rhoi mag iddyn nhw wneud celloedd brenhines brys ohono'n eu troi o eisiau heidio i eisiau creu brenhines newydd ar frys - a dydy heidio ddim yn rhan o'r cynllun hwnnw fel arfer. Felly gwnaethon ni'n siŵr fod y ddwy ffrâm a roddwyd i'r haid artiffisial â chelloedd oedd yn cynnwys wyau neu larfae ifanc.

Roedd hyn yn addasiad llwyddiannus iawn i Ddull II gwreiddiol Snelgrove. Rydyn ni wedi'i ddefnyddio sawl tro nawr a ddaeth yr haid artiffisial ddim erioed o hyd i'r frenhines lan lofft - felly cafwyd gwared ar y broblem honno. Mae'r haid artiffisial bob amser wedi gwneud celloedd brenhines ar y ddwy ffrâm fagu ac wedi bod yn llai tueddol o heidio eto'n ddiweddarach – ond nid yw'n datrys y broblem hon yn llwyr. Ar y cyfan, ein profiad ni yw bod Dull II Snelgrove wedi'i addasu'n fwy dibynadwy na'r dull confensiynol o heidio artiffisial – ac mae'n llawer haws ei wneud hefyd fel y gwelwch chi!

Snelgrove II – Dull wedi'i addasu

Mae trefn y trin a'r trafod wedi'i ddangos yn Ffigur 3:-

- a) Mae'r cwch yn cael ei dynnu'n ddarnau fel petai ar gyfer heidio artiffisial; gyda'r bocsys magu a'r llofftudd mêl yn ddau bentwr.
- b) Mae bocws dwfn newydd o grwybr yn cael ei roi ar yr hen lawr – gorau oll os ydynt yn grwybrau wedi'u tynnu ond gall gynnwys peth sylfaen.
- c) Mae dwy ffrâm fagu gyda gweinyddesau ac yn cynnwys o leiaf rai wyau a larfae ifanc yn cael eu rhoi yng nghanol y blwch newydd. **Rhaid edrych yn ofalus dros y fframiau hyn i wneud yn siŵr nad yw'r frenhines arny'n nhw. Hefyd dylid dinistrio unrhyw gelloedd brenhines sydd ar y fframiau hyn yn barod.**
- ch) Rhoddir gwahanlen ar y blwch newydd ac ychwanegir y llofftudd mêl.
- d) Rhoddir yr holl fag sydd ar ôl (yn y bocws/ys gwreiddiol) ar BS ar ben y cwch. Mae'r rhan hon (y gytref wreiddiol) yn cynnwys pob ffrâm ond dau o'r mag, yr holl gelloedd brenhines ac, yn bwysicaf oll, **y frenhines**. Gellir rhoi crwybr wedi tynnu neu fframiau sylfaen yn lle'r ddwy ffrâm sydd ar goll.
- dd) Yr unig beth sydd angen gofalu rhagddo yw na ddylai fod unrhyw gelloedd brenhines aeddfed yn y gytref wreiddiol ar y BS. A dweud y gwir mae Snelgrove yn awgrymu 'dim celloedd brenhines wedi'u selio' ond, os mai newydd gael eu selio maen nhw, bydd popeth yn iawn. (Wrth gwrs, oni bai fod y tywydd wedi bod yn wael am rai diwrnodau, fel bod yr heidio wedi'i atal, mae'n annhebygol y bydd unrhyw gelloedd brenhines aeddfed yno.) Ond os nad ydych chi'n siŵr pa mor aeddfed yw'r celloedd brenhines, dinistriwch y rhai sydd wedi'u selio.
- e) Mae drws ar y BS yn cael ei agor i adael i'r gwenyn yn y gytref wreiddiol hedfan a bydd y gwenyn sydd eisoes yn hedfan yn dychwelyd i waelod y cwch.
- f) Ar ôl 4-5 niwrnod gallwch wneud y newid drysau dwbl arferol i droi mwy o wenyn sy'n hedfan at yr haid artiffisial.
- ff) Ar ôl 7-10 niwrnod rydych chi'n cyrraedd yr ail gam. Edrychwch ar y gytref wreiddiol ar y BS a dylai'r holl gelloedd brenhines fod wedi cael eu rhwygo i lawr a dylai'r frenhines fod wedi aildechrau dodwy.

- g) Rhaid peidio ag atal y ail gam y tu hwnt i ddiwrnod 11 neu mae posibilrwydd y bydd un o'r breninesau wedi deor o'r celloedd brys ac y bydd brenhines wryfol yn rhydd yn yr haid artiffisial yn y gwaelod.
- h) Nawr rhaid ichi drosglwyddo fframiau ddwywaith: mae'r frenhines a'r ffrâm mae hi arni ac un ffrâm arall o fag o'r bocs uchaf yn cael eu trosglwyddo i'r bocs gwaelod (wedi'u rhoi yn y canol), ac mae'r ddwy ffrâm o fag a gafodd eu rhoi yn y gwaelod yn ystod y cam cyntaf – a fydd â chelloedd brenhines arny'n nhw erbyn hyn – yn cael eu trosglwyddo i ganol y bocs uchaf.

Dylai'r bocs gwaelod, gyda'r hen frenhines unwaith eto, ddechrau ailadeiladu eto – ac mae siawns dda mai dyma wnaiff e – a bydd rhan uchaf y cwch ar y BS yn dewis brenhines sy'n deor, yn dinistrio'r lleill i gyd a bydd yr un a ddewiswyd yn cael ei chyplu. Mae'r dull yn haws na heidio artiffisial confensiynol oherwydd does dim rhaid dod o hyd i'r frenhines pan fyddwch chi'n rhannu'r tro cyntaf. Mae'n rhaid iddi **BEIDIO** â bod ar y ddwy ffrâm sy'n mynd i'r bocs gwaelod gyda'r haid artiffisial. Mae dod o hyd i'r frenhines yn ddiweddarach ar y BS yn haws oherwydd bod llai o weny, ac mae hi hefyd wedi aildechrau dodwy a bydd hi'n symud llawer llai nag y mae mewn cytref cyn iddi heidio – lle mae breninesau bob amser yn fwy anodd dod o hyd iddyn nhw.

Os am unrhyw reswm rydych chi'n colli'r terfyn 11 diwrnod am yr ail gam ac yn gweld bod celloedd brenhines wedi deor yn y bocs gwaelod, rydych chi'n gaeth i'r sefyllfa honno - ond dyw hi ddim yn ddiwedd y byd! Os oes celloedd brenhines wedi'u selio o hyd, agorwch o leiaf un neu ddwy a gadael i unrhyw freninesau aeddfed gerdded allan i'r cwch. Pan fyddwch chi'n hapus fod o leiaf un frenhines wryfol iach yn y bocs gwaelod, dinistriwch bob un o'r celloedd brenhines sy'n weddill. Nawr dylai'r haid artiffisial fynd ati i ddewis brenhines, ei chael i gyplu ac ni ddylai geisio heidio. Yn y cyfamser, bydd y gytref ar y BS yn bwrw ymlaen o dan yr hen frenhines a honno nawr yw'r brif uned cynhyrchu mêl. Cyn hir bydd angen gwahanlen a rhai llofftydd mêl. Gallwch symud y rhain i fyny o ran isaf y cwch lle mae'r potensial i gynhyrchu mêl wedi'i leihau. Os ydych chi wedi gwneud cawl, a heb wneud yr ail gam tan ddiwrnod 16 neu'n ddiweddarach, yna mae'n ddigon posibl fod rhan isaf y cwch wedi heidio'n barod - ond bydd yn anodd dweud i sicrwydd. Does dim llawer y gallwch chi wneud am hyn ond gallwch fod yn weddol sicr na fydd yn heidio am yr eildro. Dysgwch y wers a mynnu gwneud yn well y tro nesaf!

Ym mhedwaredd ran y gyfres hon, y rhan olaf, byddaf yn trafod dulliau strategol yr amrywiol ddulliau o heidio rhagweithiol ac adweithiol i gael cychod i gynhyrchu cymaint o fêl ag sy'n bosib. Hefyd byddaf yn ceisio rhoi esboniad da o sut mae'r cyfan yn gweithio.

RHAN 4 – YSTYRIAETHAU STRATEGOL A RHAI DULLIAU ARLOESOL O DDEFNYDDIO BS

Cyflwyniad

Mae rhannau blaenorol y gyfres erthyglau hon wedi disgrifio'r prif ddulliau y gallwch ddefnyddio bwrdd Snelgrove i reoli cytrefi. Mae rhai o'r dulliau'n dibynnu ar y nod penodol sydd gan y gwenynwr, yr enghraifft fwyaf cyffredin yw magu brenhines newydd i gytref oherwydd bod yr un bresennol yn dod i ddiwedd ei hoes ddefnyddiol. Amcan arall cysylltiedig yw newid math cytref sydd â nodweddion annymunol drwy wneud iddi godi brenhines newydd gan ddefnyddio wyau neu larfae ifanc o stoc fwy dymunol. Drwy ddefnyddio bwrdd Snelgrove gallwch wneud hyn bron yn ddi-dor, gan gadw'r frenhines bresennol wrth ei gwaith tan i'r frenhines fydd yn ei disodli ddechrau ar ei gwaith, fel mai ychydig o gynhyrchu mêl sy'n cael ei golli. Hefyd gellir defnyddio bwrdd Snelgrove i fagu breninesau ar raddfa fach; gan ynysu rhan o'r mag rhag y frenhines ac

felly achosi i'r rhaniad wneud celloedd brenhines brys a defnyddio fframiau sydd â chelloedd arnyn nhw i 'hadu' cnewyll sy'n cynnwys gwenyn (gofalwyr benthyg) o gwch arall.

Ond, mae bwrdd Snelgrove yn cael ei ddefnyddio fel arfer naill ai i atal heidio (Dull I – a ddefnyddir i rannu cytrefi'n rhagweithiol cyn i gelloedd heidio gael eu cynhyrchu) neu reoli heidio (heidio artiffisial confensiynol neu Ddull II – a ddefnyddir pan fydd celloedd brenhines mewn cytref). Prif amcan gwenyna (i'r rhan fwyaf o bobl) yw cynhyrchu cymaint o fêl ag sy'n bosib o'u cychod. Y ffordd o reoli ymddygiad heidio'r gytref yw'r prif beth y gall gwenynwr ei reoli er mwyn cynhyrchu mêl – all y gwenynwr ddim rheoli'r tywydd.

Rheoli Heidio a Chynhyrchu Mêl

Mae bron pob dull o reoli heidio'n golygu bod peth gallu i gynhyrchu mêl yn cael ei golli ond rhaid gwrthbwysu hyn yn erbyn y golled sy'n digwydd os byddwch yn gadael i gytref heidio, mae'r brif haid yn diflannu a hefyd heidiau bwrw (*cast swarms*). Os yw'r drefn hollol naturiol hon yn cael mynd rhagddi heb ymyrraeth, bydd y rhan fwyaf o'r gallu i gynhyrchu mêl yn cael ei golli. Rhestrir y dewisiadau rheoli canlynol yn eu trefn o ran eu heffaith gynyddol ar gynhyrchu mêl.

- a) **Dim rheoli heidiau** – mae'r gytref yn mynd drwy'r tymor i gyd heb geisio heidio. Dyma'r dewis sydd fwyaf tebygol o wneud i'r cwch gynhyrchu'r cnwd mwyaf posibl o fêl. Gallwch gynyddu'r tebygolrwydd o gytref yn **peidio** ceisio heidio yn ystod y tymor drwy reoli'r crwybrau'n dda, sicrhau bod gan y frenhines ddigon o le i ddodwy bob amser a bod digon o le i'r mêl gael ei storio.
- b) **Rheoli heidio rhagweithiol** – y dull nesaf yw rhannu'r gytref cyn i unrhyw gelloedd brenhines gael eu cynhyrchu (e.e. Dull I Snelgrove, a ddisgrifiwyd yn Rhan 2). Os ydych chi'n amseru hyn fel eich bod yn ei wneud cyn i lif neithdar ddigwydd ac os ydych chi'n **addasu cydbwysedd meintiol y rhaniad yn dda***, ychydig o golli cynhyrchu mêl fydd. Efallai bydd cynnydd bychan hyd yn oed os ydych chi'n rhannu ar ddechrau'r tymor a bod hynny'n rhoi dwy gytref sy'n gweithio'n llawn ichi erbyn i brif lif y neithdar ddod. Mae rhannu rhagweithiol yn sicr yn ddewis da ar gyfer gwenyn sy'n mynd i gael eu cludo at y grug neu sydd â mynediad i lif neithdar hwyr arall. Gallwch chi uno'r rhaniadau i gynhyrchu cytref fawr sydd â llawer o fag a brenhines ifanc cyn i'r llif ddigwydd.
- c) **Rheoli heidio adweithiol** – gwneud dim rheoli heidio tan i gelloedd brenhines gael eu cynhyrchu ac yna defnyddio rhyw ddull o heidio artiffisial (gweler Rhan 3 y gyfres). Bydd y ddwy gytref a gynhyrchir gan heidio artiffisial yn anochel yn cynhyrchu llai o fêl na dwy gytref a gynhyrchwyd gan rannu rhagweithiol ond mae'r strategaeth '**aros i weld beth ddigwydd**' neu '**eistedd ar y ffens**' yn galluogi'r gwenynwr i gael y cynnyrch mwyaf posibl o'r cychod hynny a fydd yn mynd drwy'r tymor heb geisio heidio. Mae'r strategaeth hon, sef defnyddio rheoli heidio adweithiol fel y bo'r angen, yn y bôn yn gamblo ar y siawns na fydd cytref yn ceisio heidio unrhyw bryd yn ystod y tymor. Fel sy'n digwydd gyda gamblo bob amser, rydych chi'n ennill rhai ac yn colli eraill, ond nid gêm ar hap yw hon yn llwyr. Mae gan wenywyr profiadol ryw syniad pa mor debygol yw hi y bydd eu cytrefi'n heidio ac mae arwyddion rhybuddio yn y cytrefi eu hunain os ydych chi'n edrych yn ofalus. Yr unig beth na all y gwenynwr ei reoli yw'r tywydd ac, yng ngorllewin Prydain, mae hwn yn ffactor pwysig o ran dechrau'r broses heidio.
- ch) **Aros tan i heidiau ymddangos** – gan obeithio eu dal a'u rhoi mewn cwch cyn iddyn nhw ddiflannu i'r pellter. Mae hon yn strategaeth beryglus, ac mae angen bod yn wyllyadwrs iawn, ond gallwch ei gwneud yn fwy llwyddiannus drwy ddefnyddio cychod dal neu fachu a

fydd gobeithio'n denu heidiau. Fel nad yw pethau'n mynd o ddrwg i waeth, mae'n rhaid i'r gwenynwr benderfynu o hyd pa gytref sydd wedi cynhyrchu'r haid, agor y cwch a dinistrio pob cell brenhines ond un, er mwyn osgoi heidiau bwrw.

- d) **Gwneud dim byd** – ar wahân i ychwanegu digon o lofftydd mêl a gobeithio am y gorau. Os nad yw'r gytref yn heidio bydd cnwd da o fêl yn cael ei gynhyrchu. Os yw'n heidio ac yn cynhyrchu heidiau bwrw hefyd, ychydig o obaith sydd o gael mêl dros ben.

Pa Strategaeth yw'r un Orau?

Lwyddwch chi ddim i'm dal i gyda'r cwestiwn hwnnw! Petawn i wir yn gwybod yr ateb, byddwn i'n llawer rhy glyfar a phwysig i fod yn ysgrifennu erthyglau i ryw rafins fel chi. Ond o ddifrif, dewis yw hi (neu ymgais i gydbwysu) rhwng a) dim rheoli heidiau ond rheoli crwybrau'n dda, b) heidio rhagweithiol drwy rannu cytrefi, a, c) rheoli heidiau adweithiol. Mae gan bob un o'r tair strategaeth hon le yn *repertoire* rheoli'r gwenynwr. Mae gen i ddigon o hyd i'w ddysgu am yr agwedd hon ar wenyndda ac fe rof i wybod ichi pan fydd gen i ganlyniad pendant – os digwydd hynny byth!

*Er mwyn egluro ystyr yr ymadrodd '**addasu cydbwysedd meintiol y rhaniad yn dda**'. Pan fydd cytref yn cael ei rhannu i atal y broses heidio rhag dechrau digwydd, rydych chi'n ceisio troi'r nyth magu presennol yn ôl i gyflwr mwy anaeddfed. Rydych chi'n gwneud hyn drwy gael gwared ar y mag a'r gweinyddesau. Nawr, nid yn unig y mae gan y frenhines yn y nyth magu presennol fwy o le i ddodwy, ond hefyd mae llai o weinyddesau i ofalu am y mag. Y canlyniad yw nyth magu sydd mewn cyflwr datblygiad tebyg yr hyn oedd yn gynharach yn y tymor pan oedd y gytref yn dal i gynyddu. Y cwestiwn yw faint o fag a gweinyddesau sy'n ddigon i'w tynnu i atal y gytref rhag ceisio heidio am weddill y tymor? Wn i ddim beth yw'r ateb a dyma lle mae eich meddwl a'ch barn chi fel gwenynwr yn bwysig. Gyda rhai cytrefi bydd tynnu 2-3 ffrâm o fag a gwenyn yn ddigon tra bydd angen tynnu bocs cyfan gyda rhai cytrefi - ac, mewn rhai achosion, efallai na fydd hynny'n ddigon hyd yn oed. Yr unig reol y gallaf ei rhoi ichi yw, os ydych chi'n mynd i roi'r fframiau rydych wedi'u tynnu ar fwrdd Snelgrove, mae rhaid bod digon i gynnal cytref, a byddwn yn awgrymu bod tua 6 ffrâm ddofn neu 8-9 ffrâm fas yn agos ati. Oherwydd bod gwres yn codi o'r gytref islaw wrth ddefnyddio bwrdd Snelgrove, mae'n debyg y gallech ddod i ben gyda llai o fframiau ond mae'n well bod yn ochelgar. Efallai y bydd amddiffyn yn broblem allweddol i'r rhaniad ac arfer dda yw addasu pa mor llydan mae'r drws yn cael ei agor ar y bwrdd Snelgrove yn unol â hynny. Gyda rhaniad bach, bydd agoriad bach yn ddigon tan i ragor o wenyn ddeor o'r mag a than y bydd y gytref newydd wedi cael ei thraed tani.

Y gwahaniaeth rhwng Haid Naturiol a Haid Artiffisial

Mae'r rhan fwyaf o wenynwyr yn meddwl bod heidiau naturiol ac artiffisial yr un fath â'i gilydd – mae'r ddwy haid yn cynnwys gwenyn sy'n hedfan, on'd ydyn nhw? – ond mae'r canfyddiad hwn ymhell o'r gwir.

Haid artiffisial – oherwydd y ffordd y mae'n cael ei chreu drwy drin a thrafod y gwenynwr, mae'n cynnwys bron â bod yr holl wenyn profiadol sy'n hedfan (y fforwyr) o'r gytref wreiddiol. Ond dim ond ychydig o weinyddesau ifancach sydd yno; y rhai a drosglwyddwyd gyda'r un ffrâm o fag a gwenyn y mae'n arferol ei throsglwyddo i'r bocs sy'n cynnwys yr haid artiffisial, ac sy'n deor ohoni.

Haid naturiol – yn groes i'r farn boblogaidd, ychydig o fforwyr profiadol (y gwenyn hynaf mewn cytref) sydd mewn haid naturiol ond mae llawer o wenyn iau, y mae gan lawer ohonyn nhw ychydig iawn neu ddim profiad hedfan. Mae astudiaethau wedi dangos bod hyd at 70% o'r gweithwyr o dan 10 niwrnod oed yn gadael gyda'r brif haid.

Os gwylwch chi haid wrthi'n heidio fe welwch chi ychydig o hyn yn digwydd. Gellir gweld y fforwyr sy'n dod i mewn, yn anwybyddu'r llanast o'u cwmpas, yn ceisio mynd yn ôl i mewn i'r haid yn erbyn y llif o wenyn. Felly hefyd, os edrychwch chi ar yr haid sydd newydd setlo, byddwch fel arfer yn gweld ychydig o fforwyr gyda llwyth o baill ar eu coesau ôl, ond ychydig funudau'n ddiweddarach byddan nhw wedi diflannu – mae'n debyg eu bod nhw'n sylweddoli na ddylen nhw fod yno ac maen nhw wedi dychwelyd adref.

Dydyn ni ddim yn deall y broses y mae'r gytref yn mynd drwyddi wrth ymrannu i ffurfio haid naturiol – pa wenyn sy'n mynd a pha wenyn sy'n aros. Mae'n debygol mai ymateb greddfol sy'n gysylltiedig ag oedran ydyw i'r suo sy'n rhedeg dros wyneb y crwybrau gan y gwenyn sy'n trefnu'r broses heidio (pa rai bynnag ydyn nhw). Mae rhai gwenyn yn cael eu recriwtio i'r haid ac mae eraill yn dal yn ôl ac yn gwarchod y gytref wreiddiol. Efallai fod y ffordd y mae cytref yn ymrannu yn ystod haid bwrw'n fwy cymhleth fyth ond, eto, dydyn ni ddim yn gwybod braidd dim am hyn.

Wrth feddwl am gyfansoddiad oedran haid naturiol mae'n gwneud synnwyr perffaith. Pa ddiben sydd i wenyn hŷn mewn haid? Mae'n debygol mai dim ond ychydig ddyddiau sydd gan wenyn fforio ar ôl i fyw a'r hyn sydd ei angen ar yr haid yw gwenyn a fydd yn goroesi o leiaf dair wythnos (a phedair wythnos yn fwy nodweddiadol) tan y gall fod gwenyn newydd i'w disodli. Pan fydd yr haid yn ymgartrefu yn ei chartref newydd mae'n rhaid iddi neilltuo'r gweithlu o'r newydd i wneud y tasgau fwyaf brys sy'n ei hwynebu; creu cwyr/adeiladu crwybrau a fforwyr, fel bod y rhai sy'n gwneud cwyr yn cael digon o neithdar. Cyn gynted ag y mae crwybr ar gael ac mae'r frenhines yn dechrau dodwy eto, bydd rhaid i rai gweinyddesau ddod ar ddyletswydd.

Pam mae hyn yn bwysig i'r gwenynwr ymarferol? Wel, byddwn i wedi meddwl y byddech chi wedi gweithio hynny allan erbyn hyn! Mae haid artiffisial a haid naturiol yn ymddwyn yn wahanol iawn. Mae'r haid artiffisial yn cymryd amser i ddod dros y rhannu a dechrau atgyfnerthu – debyg iawn oherwydd nad oes digon o weinyddesau i ddechrau. Hefyd dyw hi ddim yn barod i gynhyrchu cwyr ac adeiladu crwybrau ar raddfa fawr a bydd yn eithaf cyndyn i dynnu unrhyw sylfaen y bydd hi'n ei gael. I'r gwrthwyneb, y mae haid naturiol yn llawn egni a brwdfrydedd. Mae eisiau adeiladu set o grwybrau cyn gynted ag sy'n bosibl, mae eisiau i'r frenhines ddechrau dodwy'n gyflym ac mae eisiau dechrau casglu storfeydd ar gyfer y gaeaf i ddod. Gall y broses o heidio gael effaith ysgogol ar y gwenyn.

Oherwydd mai '**artiffisial**' yw'r haid artiffisial, dyw'r gwenyn ddim wedi esblygu unrhyw ymddygiad greddfol i ymdopi â'r sefyllfa hollol annaturiol rydych chi (y gwenynwr) wedi'i rhoi hi ynddi. Dim rhyfedd eu bod nhw'n ei chael hi'n anodd ar y dechrau ond does dim llawer y gall y gwenynwr ei wneud i'w helpu. Er ein bod ni'n dweud yn ddigon didaro fod haid artiffisial '**yn meddwl ei bod wedi heidio**', rwy'n amau'n fawr mai felly mae hi. Mae rhai gwenyn (nid pob un ohonyn nhw) yn yr haid artiffisial honno a gafodd eu hysgogi i drefnu haid ac rydych chi wedi'u rhwystro. Er gwaethaf y trin a'r trafod, maen nhw'n aml yn cadw'r awydd i heidio a byddan nhw'n gwneud hynny os cân nhw unrhyw gyfle. Felly does dim pwynt cyflwyno rhai gweinyddesau i'r haid artiffisial i'w helpu i atgyfnerthu'n gynt oherwydd byddan nhw siŵr o fod yn tarfu ar y cydbwysedd bregus sydd yn ystod y diwrnodau cyntaf. Y dewis saffaf yw eu gadael i atgyfnerthu wrth eu pwysau.

Pan fydd rhywun yn cymharu syrthni cymharol haid artiffisial o'i gymharu ag egni haid naturiol mae'n gwneud i rywun feddwl bod rhywbeth o blaid hen arfer gwenynwyr oedd wrthi'n ddyfal yn casglu heidiau ac yn eu gosod yn eu cychod gwellt. Dim ond syniad!

Dwy Ffordd Arloesol o Ddefnyddio Bwrdd Snelgrove

Dyma ddau beth rydyn ni wedi'u trio'n ddiweddar; dydyn nhw ddim yn y llyfrau ond maen nhw fel petaen nhw'n gweithio.

Neilltuo'r Frenhines

Os ydych chi'n gwenyna mewn ardal lle nad oes llif neithdar hwyr, erbyn yr wythnos olaf ym mis Mehefin bydd y frenhines wedi dodwy'r wyau olaf sy'n mynd i gynhyrchu gwenyn a fydd yn cyfrannu i gasglu'r cnwd mêl. Yr hyn sy'n boendod yw mai dyma pryd bydd rhai cytrefi'n penderfynu heidio a byddwch chi'n gweld celloedd brenhines yn dechrau yn y cwch. Beth ddylech chi ei wneud am hyn? Os gwnewch chi haid artiffisial bydd gennych chi ddwy haid na fydd wir yn gallu gwneud y gwaith o gynhyrchu llawer o fêl.

Ond ichi ddal y broses yn gynnar, un ateb yw dod o hyd i'r frenhines a chael gwared arni. Yn y gorffennol rydyn ni wedi cymryd y frenhines a rhai fframiau o fag a gwenyn a'u rhoi mewn cnewyllyn – ac fe weithiodd. Yn ddiweddar, yn lle defnyddio cnewyllyn, rydyn ni wedi'i rhoi hi yn yr hanner bocs magu a gosod hwnnw ar ben y cwch ar fwrdd Snelgrove. Wedyn defnyddion ni'r newid drysau i droi'r gwenyn oedd dros ben yn ôl at y gytref (oedd yn casglu mêl) isod. Bydd y brif gytref (heb frenhines nawr) wrth gwrs yn gwneud celloedd brenhines brys ond bydd yn parhau i weithio'n ddigon da yn ystod y llif mêl – ac yn sicr yn llawer gwell na phetai wedi cael ei rhannu neu ei gadael i heidio. Pan fyddwch chi wedi mynd â'r mêl ac os yw'r brif gytref wedi magu brenhines newydd yn llwyddiannus, mae sawl dewis ar gael ichi. Gallwch uno'r cytrefi, gan ddewis naill ai'r hen frenhines neu'r un newydd, neu gallwch dynnu'r gytref sydd ar y bwrdd Snelgrove a'i gwneud yn annibynnol (ei defnyddio i gael rhagor o gychod).

Os ydych chi'n mynd ar wyliau ym mis Gorffennaf ac yn amau y gallai cytref geisio heidio yn ystod yr amser y byddwch chi i ffwrdd, gallwch chi wneud hyn yn rhagweithiol. Bydd hyn yn sicrhau nad yw'r gytref yn heidio ac efallai'n creu heidiau bwrw pan na fyddwch chi gartref.

Beth i'w wneud â Haid mis Gorffennaf

Yn Saesneg, dywedir nad yw'r haid hon yn '**werth pryfyn/isn't worth a fly**'. Yn y bôn, mae'n drychineb i'r cnwd mêl gan na fydd yr haid na'r gytref wreiddiol yn gwneud llawer o fêl ar y brif lif neithdar. Yn sydyn reit (hynny yw, doedden ni ddim yn edrych yn iawn), heidiodd un o'n cytrefi ni'n gynnar ym mis Gorffennaf. Yn lle ei gosod mewn cwch fel cytref annibynnol yn y ffordd arferol, taflon ni hi i flwch o grwybrau ar fwrdd Snelgrove ar ben y gytref y daeth hi ohoni. Ychydig ddiwrnodau'n ddiweddarach, pan oedd hi wedi ymgartrefu (ac roedden ni'n synnu iddi wneud hyn), newidion ni'r drws i symud y gwenyn yn ôl i'r gytref wreiddiol isod. Gan fod y rhan fwyaf o'r gwenyn wrthi'n hedfan, symudwyd nifer sylweddol o wenyw wrth wneud hyn ond arhosodd digon i gynnal yr hen frenhines. Petai'r prif lif wedi bod (haf 2009 oedd hwn, cofiwch) byddai'r gytref hon wedi gallu casglu cnwd da. Fel y digwyddodd hi, ni lwyddodd y gytref wreiddiol (yn y gwaelod) i fagu brenhines newydd felly dychwelwyd yr hen frenhines atyn nhw ar ôl i'r mêl gael ei dynnu. Ar sail yr un arbrawf hwn roedd y dull hwn fel petai'n gweithio a byddwn yn ei ddefnyddio eto petai'r cyfle'n codi - a does dim dwywaith y gwnaiff.

Yr hyn rwyf wedi ceisio ei ddangos drwy'r ddwy enghraifft olaf o ddefnyddio bwrdd Snelgrove yw pa mor hyblyg yw e i'r gwenynwr sy'n barod i roi cynnig ar rywbeth newydd. Yr unig broblem yw, o'i brynu gan gyflenwyr offer, mae byrddau Snelgrove yn tueddu i fod yn eithaf drud. Dyna pam mae cynlluniau i wneud eich byrddau eich hunain gyda'r rhan olaf hon o'r gyfres. Does dim byd wir yn gymhleth am eu gwneud nhw – dim uniadau ffansi – dim ond ychydig o fesur manwl gywir a thorri ac

mae fymryn yn drafferthus. Beth am ddod at eich gilydd fel criw o wenywyr neu gymdeithas a gwneud pentwr o fyrddau Snelgrove ar yr un pryd?